COFNODION CYFARFOD O GYNGOR CYMUNED LLANENGAN a gynhaliwyd nos Fercher, Chwefror 14eg, 2018 am saith o'r gloch

PRESENNOL

Alun Jones (Cadeirydd), Gwilym Hughes (Is-gadeirydd), Edward O. Griffith, Wyn Griffiths, John Gwilym Jones, Robert M. Jones, Owi Lloyd-Jones, Dylan Llwyd, Catherine Ll. Morris, Erfyl W. Roberts, O. Hefin Roberts, Cynghorwyr John B. Hughes a Dewi W. Roberts (Cyngor Gwynedd – Sylwebwyr)

YMDDIHEURIADAU

Andrew T. Weir

ABSENNOL

William B. Williams

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod, yn arbennig Ifan Llewelyn Jones, Swyddog Hunan*iaith*.

SGWRS IFAN LLEWELYN JONES, SWYDDOG HUNAN*IAITH*

Diolchodd am y gwahoddiad a rhoddodd eglurhad cryno o'r cynllun – mae Hunan*iaith* yn gweithio'n wahanol i'r Mentrau Iaith sydd gan Gynghorau eraill trwy Gymru oherwydd bod y Gymraeg mor amlwg yng Ngwynedd; mae'n dylanwadu'n wahanol. Gall Hunan*iaith* gefnogi'n gadarnhaol ac awgrymu gair i gall. Awgryma y gellid gosod amod iaith wrth gefnogi'n ariannol unrhyw weithgaredd, yn ogystal â gosod sail heb wthio'n ormodol. Mae'r gwefannau cymdeithasol megis Facebook a Twitter angen proc yn aml, gan mai'r Saesneg yw eu 'prif iaith', tuedda'r mwyafrif hysbysebu neu drefnu gweithgaredd yn Saesneg a buan iawn y buasai'r Gymraeg yn mynd yn angof, hyd yn oed gan y Cymry. Soniodd am y pecyn a baratowyd – cynnwys taflenni bwydlen/cyfarch ac ati a dywedodd y gallai baratoi mwy o becynau i'w dosbarthu i siopau a busnesau lleol. Dywedodd y Clerc y gellid rhoi un i berchnogion busnes 'Two Islands', y siop hufen iâ newydd sydd ar fin agor yn adeilad y banc; ychwanegodd yr ysgrifennodd i fynegi siomedigaeth yn yr enw uniaith Saesneg ond, ni dderbyniodd ymateb hyd yma.

1. **DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

   Datganodd: Cynghorwyr Edward O. Griffith a Catherine Llewelyn Morris fuddiant yng nghais cynllunio C17/1258/39/LL – Addasu siop yn uned wyliau – Yr Hen Fecws, Stryd Fawr, Aber-soch, oherwydd eu bod yn berchnogion ar unedau gwyliau eu hunain; Cynghorydd Erfyl Wyn Roberts fuddiant yng nghais cynllunio C18/0035/39/LL – Adeiladu balconi i'r blaen a chyfnewid ffenestr am ddrws patio – 271 Cae Du, Aber-soch, oherwydd y bu'n gweithio yno.

2. **CADARNHAU COFNODION**

   Cynigiwyd ac eiliwyd bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar Ionawr 10fed, 2018 yn gywir.

3. **CEISIADAU CYNLLUNIO**

   Trafodwyd y ceisiadau a ganlyn:

C17/0967/39/LL	Creu safle ar gyfer deuddeg (12) pabell saffari – Tir yn Nhy'n-y-Cae, Llangïan **– Gwrthwynebir oherwydd gorddatblygiad mewn lleoliad amlwg ar ochr y briffordd ac y crea gynsail i'r dyfodol – cefnogodd pedwar aelod y cynnig ac ataliodd pedwar arall eu pleidlais**
C17/1056/39/LL	**Cais Diwygiedig –** Cais ar gyfer lleoli deg carafán deithiol ac un sefydlog ar gyfer rheolwr, codi bloc cawodydd a thoiled, ffens atal sŵn, clawdd, ffordd mynediad newydd a llefydd parcio i gapel gerllaw – Frondeg, Llanengan **– Datgana'r Cyngor ddiddordeb oherwydd ei fod yn berchen ar estyniad Mynwent y Bwlch**
C17/1161/39/LL	**Cais Diwygiedig –** Diwygio Amod 4 ar Ganiatâd Cynllunio C15/0901/39/LL er diwygio dyluniad y tŷ arfaethedig – Tir ger Tŷ Adda, Aber-soch **– Gwrthwynebir oherwydd ei fod yn goredrych cymdogion, mae'r balconi'n sylweddol fwy na'r un yn y cais gwreiddiol ac nid oes angen grisiau 'dianc' o dŷ deulawr [Derbyniwyd copi o e-bost, er gwybodaeth, a anfonodd Cyng. Dewi Wyn Roberts at yr Adran Gynllunio parthed yr uchod.]**
C17/1258/39/LL	Addasu siop yn uned wyliau – Yr Hen Fecws, Stryd Fawr, Aber-soch **– Cefnogir [Datgan Diddordeb – EOG a CLLM]**
C18/0027/39/LL	Estyniad deulawr i gefn yr annedd – Wharfdale, Lôn Rhoslyn, Aber-soch **– Cefnogir**
C18/0035/39/LL	Adeiladu balconi i'r blaen a chyfnewid ffenestr am ddrws patio – 271 Cae Du, Aber-soch **– Cefnogir, er y dechreuwyd y gwaith eisoes [Datgan Diddordeb – EWR]**
C18/0039/39/LL	Tynnu Amod 7 o Ganiatâd Cynllunio C10A/0397/39/AM sy'n amod i'r tŷ fod yn gartref parhaol – Tir ger Anhywel, Lôn Pont Morgan, Aber-soch **– Cefnogir**
C18/0048/39/LL	Adeiladu cwt glan môr newydd heb gydymffurfio ag Amod 2 Caniatâd Cynllunio C15/0537/39/LL dyddiedig Gorffennaf 3ydd, 2015 – Cwt Glan Môr 15, Borth Fawr, Aber-soch **– Gwrthwynebir oherwydd na chadwyd at y cynllun gwreiddiol; cefnogwyd hwnnw ar yr amod y cedwid at faint y cwt gwreiddiol. Mynegwyd y dylid sicrhau bod unrhyw gais am adeiladu cwt yn y dyfodol yn cynnwys amod mai o goed neu haearn/fetel rhychog, fel gweddill y cytiau, a ddylai fod nid o goncrid a thrawstiau dur fel hwn. Gofynnwyd, hefyd, a yw'n fwriad gan Gyngor Gwynedd fynnu fod yr ymgeisydd yn ei ddymchwel a'i adeiladu yn unol â'r caniatâd gwreiddiol a, hyd yn oed, ei ddirwyo fel gwnaeth Cyngor Sir Gaerlŷr yn dilyn achos o adeiladu'n groes i ddyfarniad cynllunio yr wythnos hon?**
C18/0063/39/LL	Estyniad ac addasiadau yn cynnwys codi uchder crib to a gosod ffenestr gromen – Clogwyn, Bwlchtocyn – **Cefnogir**

4. **MATERION YN CODI**

a) **Toiledau Cyhoeddus**

- Atebodd Bethan Hughes, Uwch Swyddog Ymchwil a Dadansoddeg, drwy nodi y ceisiwyd denu arian nawdd ar gyfer cyfrannu at gostau'r drysau. Ychwanegodd na ddywedwyd 'na' wrthi ond, mae'n annhebyg iawn y gall y Cyngor gyfrannu at dri toiled oni bai y derbynia nawdd. Cysyllta cyn gynted ag y derbynia fwy o wybodaeth.
- Derbyniwyd pris y cwmni (£4,480 y drws) a ofynnodd am luniau o ddrysau'r toiledau – fe'i anfonwyd at Bethan Hughes.
- Ymddiheurodd swyddog o'r Adran Gynllunio nad atebwyd yr ymholiad am agor caffi Marchros dros y Nadolig ac yr ymatebir iddo cyn gynted â phosibl.

b) **Cae Chwarae Aber-soch**

Penderfynwyd trefnu cyfarfod o'r Is-bwyllgor i drafod pa offer a brynir i'r ddau gae chwarae. Awgrymwyd, hefyd, y gellid gwahodd cynrychiolwyr cwmnïau i gynnig eu mewnbwn, ynghyd ag ysgrifennu at ddisgyblion yr ysgolion lleol i ofyn beth hoffent hwy ei gael...o fewn rheswm.

c) **Meddygfa Aber-soch**

i) Derbyniwyd ateb oddi wrth Gary Doherty, Prif Weithredwr Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, yn nodi y dylid cysylltu â Wyn Thomas, Cyfarwyddwr Cynorthwyl Ardal Gofal Cychwynnol, i drafod y broses a sail resymegol y penderfyniad o gau'r feddygfa; penderfynwyd parhau â'r bwriad o'i wahodd er mwyn dangos nad ydym yn derbyn y penderfyniad, yn ogystal â chyflwyno copi o'r ddeiseb (850 llofnod) iddo ac mae angen trafod y dyfodol. Crybwyllir y trafodaethau â'r Fferyllfa ac O Ddrws i Ddrws i weld pa gymorth y gellir ei roi i'r boblogaeth leol o ran manteisio ar wasanaethau.

ii) Derbyniwyd llythyr, er gwybodaeth, oddi wrth Meinir Jones, Swyddog O Ddrws i Ddrws, yn crybwyll y trafodaethau yn y gobaith o drefnu cynllun peilot i drigolion y gymuned hon sydd ddim yn gyrru neu'n dibynnu ar deulu i'w danfon i apwyntiadau ym Meddygfa Rhydbach. Ychwanegodd Cyng. Dewi Wyn Roberts mai cynllun peilot o dri mis fydd o â'r bwriad o gadw apwyntiadau'n rhydd i gleifion, e.e. bore Mawrth – awgrymwyd bod rhaid i bawb fod yn sâl yr un pryd...!

ch) **5. Coed yr Allt, Aber-soch**

Derbyniwyd taliad iawndâl olaf (£105.00) y diffynnydd cyn cysylltu â'r Gwasanaeth Llys – gweler 12. Cadarnau Taliadau a Derbyniadau isod.

d) **10. Gohebiaeth: d) Cefnogaeth Gorfforaethol – Hunan*iaith***

Gweler 1. uchod.

dd) **10. Gohebiaeth**: a) **Un Llais Cymru (ULlC): vi)** ***Adolygiad o'r Sector Cynghorau Cymuned a Thref – Mae Angen eich Help!***

Cynhelir cyfarfod ag aelodau'r Panel Adolygu yn Swyddfa Cyngor Tref Caernarfon bnawn Mawrth, Mawrth 6ed rhwng hanner dydd a thri o'r gloch – gobeithia'r Clerc ei fynychu.

e) **10. Gohebiaeth: d) Tesni Roberts, Cysylltwr Cymunedol, Gwasanaeth Cymdeithasol – Ymchwil Cymuned Llanengan**

Ceisio gwybodeth am ba fath o weithgareddau a digwyddiadau a gynhelir yn y gymuned mae'r uchod, e.e. deallodd y cynhelir Cylch Llenyddol Llŷn yng Nghanolfan Llanengan. O ganlyniad, paratowyd rhestr fras o'r cymdeithasau ac ati, ynghyd â nodi enw a rhif ffôn ysgrifenyddion neuaddau'r gymuned iddi gael mwy o wybodaeth.

5. **MYNWENT**

a) **Partneriaethau Llywodraeth Leol Llywodraeth Cymru – Taliadau Claddu ar Gyfer Plant**

Llythyr a chopi o Femorandwm Cyd-ddealltwriaeth a lofnodwyd â Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ac Un Llais Cymru ar Dachwedd 23ain, 2017 i ddileu ffïoedd claddu ac amlosgi plant dan ddeunaw oed. Rhyddheir £600,000 yn flynyddol rhwng prif gynghorau Cymru a fydd yn dosbarthu symiau priodol i awdurdodau claddu eraill megis cynghorau cymuned a thref.

b) **Cytundeb Torri Gwellt**

Ni phennwyd tymor pan ddyfarnwyd y gytundeb i'r contractwr; penderfynwyd parhau fel y mae.

6. **CYFRIFON**

a) **Archwiliwr Mewnol**
Derbyniodd Luned Fôn Jones, aelod o Dîm Archwilio Mewnol Cyngor Gwynedd, y gwahoddiad i fod yn Archwiliwr Mewnol y Cyngor ond, ni all sefydlu ffi heb wybod beth yn union yw swmp y gwaith; amcangyfrifa y bydd oddeutu £150.00 – £175.00 ond, gallai ostwng neu gynyddu yn ddibynnol ar yr hyn sydd i'w gyflawni.

b) **Cytundeb Trydan y Toiledau**
Cysylltwyd â British Gas (ni ffoniwyd yn ôl fel yr addawyd), SSE (angen tystysgrif benodol cyn cynnig pris) ac E-on; yr olaf a anfonodd bris, sef cytundeb dwy flynedd – tâl sefydlog o 27c y dydd a thâl uned 20.25c kWh. Cynigiodd npower bris o dâl sefydlog o .2402c y dydd a thâl uned 23.90c kWh ar gytundeb tair blynedd; penderfynwyd parhau â npower.

c) **Ad-daliad Torri'r Foel, Mynytho**
Derbyniwyd yr ad-daliad erbyn hyn – gweler 12. Cadarnhau Taliadau a Derbyniadau isod.

ch) **Un Llais Cymru – Paratoi Cyllideb 2018 – 2019 – Adroddiad Blynyddol Drafft Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol**
Yn dilyn cyhoeddi'r uchod ar gyfer 2018 – 2019 mae'n ofynnol i gynghorau cymuned a thref ystyried cynnwys swm yn eu cyllideb ar gyfer cost debygol talu lwfansau i gynghorwyr. Awgrymir y dylai cynghorau weithio ar y sail y gellid cymeradwyo'r penderfyniadau yn yr adroddiad drafft ac mai doeth fyddai gweithio ar y sail honno. Ffactor arall i'w hystyried yw i ba raddau y gallai aelodau ddewis peidio â chymryd lwfansau gorfodol arfaethedig a dod i benderfyniad ynghylch faint o aelodau sy'n debygol o gymryd y lwfans. Mae hwn yn fater i gynghorau unigol ei ystyried, gan fod y sefyllfa'n debygol o fod yn wahanol ymhob un. Mynegwyd y cyrhaeddodd yr wybodaeth hon braidd yn hwyr ar gyfer trafod y gyllideb.

d) **Ceisiadau Ariannol**
Angen trefnu cyfarfod o'r Is-bwyllgor i drafod yr uchod.

7. **MATERION CYNLLUNIO**

a) **Materion yn y Gymuned**
Derbyniwyd e-bost yn ymddiheuro nad atebwyd y llythyr a anfonwyd i fynegi siomedigaeth am y diffyg ymateb i ymholiadau drwy e-byst dros y misoedd diwethaf – gwneir cyn gynted â phosibl.

b) **Datblygiad Cornwall, Mynytho**
Derbyniwyd eglurhad oddi wrth Catrin V. Roberts, Rheolwr Cartrefi Fforddiadwy, am yr uchod – cymerodd Grŵp Cynefin reolaeth o'r safle oddi wrth North Wales Timber Frames cyn y Nadolig, gan nad oedd mewn sefyllfa i barhau â'r gwaith adeiladu. Ers hynny, rhoddwyd blaenoriaeth i gwblhau'r gwaith, yn y gobaith y byddai'r tai'n barod ddechrau'r mis hwn – diweddarir y prynwyr a'r Aelod Lleol yn rheolaidd.

c) **Cyng. Dewi Wyn Roberts – Cais am Safle Carafannau Teithiol Tymhorol yn Nhy'n y Coed, Aber-soch**
Copi, er gwybodaeth, o'i lythyr i'r Caravan and Motorhome Club, yn gwrthwynebu sefydlu'r uchod.

8. **MATERION PRIFFYRDD A BWRDEISTREFOL**

a) **Y Fach – Cynllun a Chyfyngiadau Parcio**
Derbyniwyd:

i) ateb yn nodi y trafodwyd y mater o ddileu'r tariff 24 awr ymhellach a bod modd ychwanegu gwaharddiadau parcio i garafannau a *campervans* dros nos ar y Gorchymyn Traffig; hefyd, gellir cynnig parcio am £1.00 yr awr fel rhan o'r tariff a thynnir yr arwyddion system unffordd ac y gwneir hynny o fewn pythefnos – heb wneud hyd yma; mynegwyd sylw y gwrandewir ar lais y Cyngor.

ii) cynllun lleoliad yn dynodi y cyfyngiadau parcio arfaethedig ar gyfer yr uchod, sef dim carafannau na rhai modur rhwng hanner nos ac wyth o'r gloch y bore; gofynnwyd pwy sy'n arolygu hynny ac i ble maen nhw'n mynd ar yr amseroedd yna...? Buasai ei newid i ddeg o'r gloch neu gynharach yn fwy derbyniol.

b) **Blwch Post Llangian**

Derbyniwyd gohebiaeth y cwblhawyd y gwaith ymchwil ar leoliad newydd y blwch post, sef tu allan i Neuadd yr Eglwys ac y disgwylir prosesu'r gwaith papur a'r blwch gyrraedd – amcancyfrifir y bydd yn ei le yn ystod y chwe wythnos nesaf.

c) **Torri Gwair Ochr Ffordd**

Anfonwyd yr ohebiaeth parthed yr uchod ymlaen at sylw Gwasanaeth Gwaith Bwrdeistrefol – disgwylir ateb yn uniongyrchol oddi wrth hwnnw.

ch) **Materion yn y Gymuned**

Derbyniwyd ateb i'r isod oddi wrth Alun Roberts, Peiriannydd Ardal Dwyfor:

i) ***Fron Olau*** – cynhwyswyd y gwaith ar y rhestr waith dymunol ond, ni ellir, ar hyn o bryd, roi sicrwydd pryd yr ymgymerir ag o oherwydd bod sefyllfa gwariant i gynnal y gweithlu yn eithaf tynn

ii) ***Caerwyn, Llangian*** – ymchwilia Uned Ddraenio Tir Gwasanaeth Ymgynghoriaeth i achos a tharddiad y llifogydd diweddar

iii) ***Clytio Lôn Cae Du*** – mae'r wyneb tu draw i'w hoes ac nid oes arian refeniw ar gael yn y gyllideb i ailwynebu ffyrdd. Fe'i chynhwyswyd, fel amryw yn Nwyfor, ar restr waith ailwynebu dymunol.

d) **Rhybudd Cau Ffordd ger Bryn Eithin, Mynytho**

Caeir y ffordd rhwng Bryn Eithin a Lôn Las ar Chwefror 27ain yn ystod cyfnod gwaith adnewyddu polion trydan.

9. **MATERION HAWLIAU TRAMWY – LLWYBRAU CYHOEDDUS**

a) ***Torri'r Llwybrau***

Dim ond cydnabod derbyn e-bost wnaeth Dewi Wyn Owen, Uwch Swyddog Hawliau Tramwy. Yn anffodus, er sylweddoli a derbyn mai ef yw'r unig swyddog a weithia yn yr Adran erbyn hyn o ganlyniad i'r toriadau ariannol, mynegwyd bod rhaid cwyno am y diffyg ymateb i'r cais am gyfarfod ers misoedd; anfonir copi at Wyn Williams, Rheolwr Cefn Gwlad, hefyd.

10. **GOHEBIAETH**

a) **Un Llais Cymru (ULlC)**

i) ***Dogfen Ymgynghori ar Ganllawiau Statudol i Awdurdodau Lleol Adran 8 Deddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017: Strategaethau Lleol ar gyfer Darparu Toiledau***
Angen sylwadau erbyn Ebrill 4ydd.

ii) ***Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol***

Copi o'r canllawiau cyfreithiol diweddaraf er mwyn cydymffurfio â'r Rheoliadau erbyn Mai 25ain. Comisiynodd NALC gwmni o gyfreithwyr i baratoi pecyn gwaith i'w ddefnyddio wrth baratoi ar gyfer y dyddiad gweithredu.

iii) ***Cynllun Caru Gwenyn***
Cynllun i gynorthwyo peillwyr – gall ardaloedd prosiectau llwyddiannus alw eu hunain yn ardal, pentref neu dref 'Caru Gwenyn' (tebyg i Dref Masnach Deg).

iv) ***Bwletin mis Ionawr***
Copi, er gwybodaeth – argraffwyd:
- templed newydd Cynllun Iaith Gymraeg – ni chafwyd gyfle i'w baratoi, h.y. cynnwys/ychwanegu/addasu'r un cyfredol er mwyn ei fabwysiadu a'i anfon at Gomisiynydd yr Iaith Gymraeg i gael ei sêl bendith
- Diogelu Data – gweler ii) uchod
- goblygiadau Brexit ar Amaeth, Ardaloedd Gwledig a Defnydd Tir yng Nghymru Fframwaith Cenedlaethau'r Dyfodol.

v) ***Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol: Fframwaith Cenedlaethau'r Dyfodol***
Copi, er gwybodaeth.

vi) ***Aelodaeth 2018 – 2019***
Tâl yr uchod fydd £515.00 sy'n seiliedig ar 1691 o anheddau trethadwy yn ôl .0305c yr annedd (seiliedig ar Restr Brisio, nid y Gofrestr Etholiadol) – penderfynwyd parhau'n aelod.

b) **Llywodraeth Cymru – Arolwg o'r Trefniadau Etholiadol ar gyfer Sir Gwynedd – Cynigion Drafft**

Anfonwyd copi o'r cynigion sy'n effeithio ar y gymuned hon at bawb cyn cyfarfod heno er mwyn arbed amser – cynigir cyfuno'r isod ynddo:

- ward Aber-soch (rhagamcenir 481 o etholwyr) a gynrychiolir gan un cynghorydd â ward etholiadol Llanbedrog yn cynnwys Cymuned Llanbedrog (rhagamcenir 728 o etholwyr) a gynrychiolir gan un cynghorydd
- wardiau Llanengan a Llangïan (rhagamcenir 805 o etholwyr) a gynrychiolir gan un cynghorydd â ward etholiadol Botwnnog yn cynnwys Cymuned Botwnnog (rhagamcenir 704 o etholwyr) a gynrychiolir gan un cynghorydd.

Noda'r Comisiwn Ffiniau lefel uchel o orgynrychiolaeth yn y wardiau presennol o gymharu â'r cyfartaledd sirol arfaethedig ac, o'r herwydd, ystyriwyd drefniadau amgen ar gyfer y ddwy ardal gan roi'r enwau 'Aber-soch gyda Llanbedrog' a 'Botwnnog a Llanengan' i'r wardiau etholiadol arfaethedig. Gan nad oes angen sylwadau tan Ebrill 23ain, penderfynwyd ei drafod yn iawn yng nghyfarfod nesaf y Cyngor. Dywedodd y ddau Aelod Lleol y deil Cyngor Gwynedd at y sylwadau a anfonwyd yn yr Haf, sef na ddylid defnyddio nifer etholwyr yn unig fel ffordd resymol o asesu llwyth gwaith tebygol cynghorydd. Hefyd, effeithir yr ardal gan bresenoldeb ymwelwyr a chynifer o ailgartrefi – cofrestrodd perchnogion mwyafrif y rheiny fel etholwyr yn ardal eu prif gartref a dangosodd Cyfrifiad 2011 hynny bod nifer fawr o gartrefi 'heb breswylwyr arferol'. Cafodd y ddau gefnogaeth Aelodau eraill i'r cynnig o greu etholaeth ar gyfer:

- Cymuned Llanbedrog yn ymestyn o Benrhos at groesffordd Coed y Fron, Mynytho, sy'n cynnwys Llanbedrog (768) a Mynytho, hyd at Goed y Fron (tua 450) – etholaeth un aelod â thua 1218 etholwr
- cymuned Llanengan o groesffordd Coed y Fron a gynhwysai gweddill Llangian (tua 53 etholwr tu hwnt i Fynytho), Llanengan (333) ac Aber-soch (523) yn cynnig etholaeth un aelod â thua 909 o etholwyr. Golyga'r cynnig hwn un newid i ffin ward cymunedol yn ward Llangian o fewn hen etholaeth Llanengan.

Buasai'r uchod yn cynnal ac adeiladu ar gysylltiadau cymunedol lleol.

c) **Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd a Môn – Cynllun Llesiant Gwynedd a Môn**
Ymgynghoriad – angen sylwadau erbyn Mawrth 30ain.

ch) **Swyddog Adfywio – Gwynedd Ddigidol – Mynediad i Bawb**
Cynllun gwella mynediad at gyfrifiaduron a'r we.

d) **Cymorth Cynllunio Cymru – Hyfforddiant ar Gynllunio**
Cynhelir gweithdy hyfforddiant am ddim a fydd yn canolbwyntio ar geisiadau cynllunio yn Ystafell Peblig, Swyddfa Cyngor Tref Caernarfon nos Fawrth, Chwefror 20fed rhwng chwech a 9.15 o'r gloch; bydd swyddogion cynllunio Gwynedd yno i ateb cwestiynau hefyd – bwriada'r Clerc ei fynychu.

dd) **Gwasanaeth Ieuenctid Gwynedd – Ailfodelu Gwasanaeth Ieuenctid Gwynedd**
Llythyr yn cynnig tri trefniant gwahanol i Gynghorau Cymuned i'w hystyried gan y cymunedau/unigolion a ddatganodd bryder am golli eu Clwb Ieuenctid lleol yn ystod yr ymgynghoriad diweddar ar ddyfodol y Gwasanaeth Ieuenctid; penderfynwyd ysgrifennu i ofyn am fwy o fanylion am Glwb Ieuenctid Aber-soch, gan na dderbyniwyd unrhyw wybodaeth i fedru ymateb yn iawn i'r tri chynnig.

e) **Adran Oeodlion, Iechyd a Llesiant – Sefydlu Timau Adnoddau Cymunedol**
Llythyr yn egluro bwriad yr uchod, sef datblygiadau sy'n digwydd ar y cyd rhwng yr Adran a Bwrdd Iechyd Prifysgol Cadwaladr. Sefydlwyd pum Tîm Adnoddau Cymunedol a ddaeth i rym ar Chwefror 5ed fel y cam cyntaf i sefydlu timau integredig ar draws maes gofal cymdeithasol ac iechyd cymunedol.

f) **Clwb Moduro Harlech a'r Cylch Cyf. – Rali Goffa Merfyn Hughes, Rali Llŷn – Mawrth 17eg – 18fed**
Llythyr, er gwybodaeth, am yr uchod.

11. **DYFARNIADAU CYNLLUNIO**

C16/1258/39/MG	Cais i gymeradwyo manylion a gadwyd yn ôl ar gyfer gosod siale gwyliau, darpariaeth parcio, cyfnewid tanc septig am system trin breifat yn dilyn Caniatâd Amlinellol C13/1218/39/AM – 21 Ystâd Braich, Mynytho **– Caniatawyd ag amodau**
C17/0720/39/TC	Defnyddio carafan fel uned breswyl – Chalet, Hoskyns Bungalow, Bwlchtocyn – **Caniatawyd y Tystysgrif Cyfreithloni'n unig**
C17/1024/39/LL	Dymchwel tŷ presennol ac adeiladu un tri llawr yn ei le – The Shanty, Pen Bennar, Aber-soch **– Gwrthodwyd**
C17/1065/39/LL	Codi uchder to ar gyfer creu gwell uchder i ystafelloedd wely ar y llawr cyntaf ac ymestyn balconi llawr daear – Ynys Môr (Olwen), 2 Llwyn Onn, Aber-soch **– Caniatawyd ag amodau**
C17/1223/39/AC	Rhyddhau Amod 5 (Manylion system awyru) ar Ganiatâd Cynllunio C16/1571/39/LL – Cyn-fanc NatWest, Aber-soch **– Caniatawyd yn ddi-amodol**
C17/1136/39/LL	Adeiladu cwt glan môr – Cwt Glan Môr Rhif 22, Borth Fawr, Aber-soch **– Caniatawyd ag amodau**
C17/1141/39/LL	Estyniad unllawr – Tŷ Ni, 111 Cae Du, Aber-soch **– Caniatawyd ag amodau**
C17/1144/39/LL	Gosod dwy garafán sefydlog ychwanegol i gynyddu niferoedd o 17 i 19 a chodi clawdd pridd – Tŷ Hir Caravan Park, Mynytho **– Gwrthodwyd**
C17/1171/39/LL	Adeiladu porth – 4 Tan-y-Gaer, Aber-soch **– Caniatawyd ag amodau**

C17/1185/39/CC	Torri dwy goeden sy'n destun Gorchymyn Diogelu Coed – Plot ger Gorse Bank, Lôn Pen Cei, Aber-soch **– Gwrthodwyd**
C17/1229/39/LL	Adeiladu cegin a balconi ar drychiad cefn – 16 Cae Pin, Aber-soch **– Caniatawyd ag amodau**
C18/0042/39/AC	Rhyddhau Amod 3 (Cytuno lliw ffrâm a chanopi) ar Ganiatâd Cynllunio C16/1417/39/LL – Zinc Cafe & Bar, Lôn Pen Cei, Aber-soch **– Caniatawyd yn ddi-amodol**
C18/0045/39/AC	Rhyddhau Amod 3 (cytuno llechen) o Ganiatâd Cynllunio C17/0096/39/LL – 1 Bryn Llawen, Llanengan **– Caniatawyd yn ddi-amodol**

12. **CADARNHAU TALIADAU A DERBYNIADAU**

Taliadau

Cadarnhawyd talu cyflog mis Chwefror (Rh/S 002126) y Clerc, ynghyd â'r taliadau a ganlyn:

a) Cyngor Gwynedd – £995.28 (Rh/S 002124 – Gwagio Biniau Baw Cŵn misoedd Awst – Tachwedd 2017)
b) npower Business – £44.74 (D/U – Cyflenwad Trydan y Toiledau)
c) Casglwr Trethi – £7.16 (Rh/S 002125 – Talu Wrth Ennill)
ch) Un Llais Cymru – £515.00 (Rh/S 002127 – Tâl Aelodaeth 2018)

Derbyniadau

a) Toiledau – £9.40 (Tâl Mynediad)
b) ScottishPower – £2.38 (Wayleave Cae Chwarae Aber-soch)
c) Cyfoeth Naturiol Cymru – £4600.00 (Ad-daliad Torri'r Foel 2017)
ch) Gwasanaeth y Llysoedd – £105.00 (Taliad Olaf Iawndâl Coed yr Allt)

13. **DYDDIAD AC AMSER Y CYFARFOD NESAF**

Nos Fercher, Mawrth 14eg, 2018 am saith o'r gloch